

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Feddygol Dinas Powys,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r
Fro

Dyddiad yr arolygiad: 08 Ionawr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 10 Ebrill 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	27

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Dinas Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 08 Ionawr 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o ddau holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd canfyddiadau ein holiaduron cleifion yn cadarnhau bod cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a dywedodd pob un ohonynt fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion a'u gofalmwr mewn modd cwrtais a chadarnhaol.

Roedd prosesau ar waith a oedd yn galluogi'r cleifion i gael gafael ar y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir. Roedd y practis yn sicrhau bod cleifion agored i niwed yn cael gofal amserol. Câi hyn ei gefnogi gan Dinas Powys Voluntary Concern, a all ddarparu cludiant a gwybodaeth am y practis i gleifion drwy ei gylchgrawn. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer da.

Roedd mynediad da i'r safle a oedd yn galluogi cleifion â phroblemau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn i ddefnyddio'r cyfleusterau yn hawdd. Roedd yr amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd gwahanol fathau o gadeiriau yn yr ardal aros, sy'n enghraifft o arfer da, felly hefyd y fynedfa arbennig i ambiwlansys.

Roedd y gwasanaeth yn darparu mynediad da i gleifion ac roedd ganddo gyfleusterau da yn yr ardal aros, gan gynnwys opsiynau eistedd amrywiol a chyfarpar monitro pwysedd gwaed. Roedd y staff yn sicrhau bod y cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch ac roedd gan y gwasanaeth gydberthynas agos â grŵp Dinas Powys Voluntary Concern, sy'n cynnig cludiant a gwybodaeth am y practis drwy ei gylchgrawn.

Dylai'r polisi hebryngwyr gael ei ddiweddarau i sicrhau bod pob tasg y mae'n ofynnol i'r hebryngwr ei chyflawni, yn cael ei chofnodi'n briodol. Yn ogystal, dylid cyflwyno polisi mynediad sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am y mathau o apwyntiadau sydd ar gael a sut y gellir eu trefnu. Dylid rhoi polisi llwybr cleifion ar waith hefyd i gefnogi'r broses llywio gofal sydd ar waith ar hyn o bryd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd ein canfyddiadau dîm clinigol ymroddedig a brwdfrydig a oedd yn gweithio'n galed i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys o fewn ystafelloedd clinigol. Roedd y practis yn lân ac yn dactylus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da.

Dangosodd y practis drefniadau cydweithio da fel clwstwr i sicrhau y gallai gofal cleifion barhau pe bai sefyllfa eithafol yn codi.

Roedd trefn briodol ar waith pe byddai angen help ar frys yn y practis. Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio'n briodol, ac roedd y staff yn gallu dod o hyd iddynt mewn argyfwng. Mae'r holl gyffuriau a chyfarpar brys yn y practis yn cyrraedd y safonau a nodir yng nghanllawiau Cyngor Adfywio'r DU. Mae unigolyn a enwir yn gyfrifol am wirio'r rhain bob wythnos a chaiff y gwiriadau hyn eu cofnodi.

Roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn briodol. Roedd y gweithdrefnau yn sicrhau bod y practis yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cynnal safonau atal a rheoli heintiau ac roedd y staff nysio wedi cael yr hyfforddiant priodol.

Roedd gwiriadau tymheredd dyddiol yn cael eu cymryd ar gyfer meddyginiaethau y mae angen eu cadw yn yr oergell. Roedd cylchrediad aer da yn yr oergelloedd y gwnaethom eu harchwilio am fod y meddyginiaethau'n cael eu storio'n briodol, yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr.

Roedd y gweithdrefnau diogelu oedd ar waith yn foddhaol gyda pholisi ar waith ac arweinwyr diogelu a enwir yn y practis. Gwelsom nad oedd y lefel o hyfforddiant diogelu sy'n briodol i rolau'r staff, ac fel y rhestrir yn y polisi, yn cyfateb i gofnodion hyfforddiant y staff.

Roedd cofnodion meddygol y cleifion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Gwelsom nad oedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys cynlluniau rheoli ac nid oedd codau Read clinigol yn cael eu defnyddio'n gyson.

Roedd ymatebion y staff a gwblhaodd yr holiadur yn gadarnhaol. Roedd pob aelod o'r staff yn teimlo mai gofalu am gleifion oedd prif flaenoriaeth y practis hwn ac roedd pob un ohonynt yn fodlon ar ymdrechion y practis i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu mewn ffordd gynaliadwy. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Roedd gan y practis gyfres o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ac roedd prosesau ar waith i rannu unrhyw ddiweddariadau gwybodaeth â staff.

Gwelsom fod cymysgedd sgiliau priodol rhwng y timau i ddarparu'r gwasanaethau gofynnol ac roedd gan y practis broses ar waith i sicrhau bod niferoedd staff a lefelau staff clinigol yn cael eu cynnal.

Wrth edrych ar hyfforddiant y staff, nodwyd y dylai matrices hyfforddiant gael ei ddatblygu a'i gadw er mwyn cael darlun cyffredinol o gydymffurfiaeth â hyfforddiant. Gwelsom fod yn rhaid chwilio drwy gofnodion y staff i ganfod eu cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Clywsom fod y meddygon teulu yn cadw eu tystysgrifau eu hunain o ganlyniad i arfarniadau ac ymarferion ailddilysu ac, felly, prin oedd y dystiolaeth a oedd ar gael yn eu ffeiliau. Bydd matrices hyfforddiant yn galluogi'r practis i sicrhau y gellir monitro cydymffurfiaeth yn effeithiol a sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn gyfredol yn unol â'u rôl.

Rhodddwyd sicrwydd i ni y byddai'r staff yn cael eu cefnogi i fynegi pryder pe bai angen a chawsom gopi o bolisi chwythu'r chwiban y practis.

Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn ymgysylltu'n dda â'r cleifion a gyda'i gilydd. Gwelwyd dealltwriaeth gadarn yn y practis o gyfrifoldebau mewn perthynas â phrosesu gwybodaeth, gan sicrhau bod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Yn ogystal, roedd cydberthnasau cydweithredol da wedi'u sefydlu â phartneriaid allanol ac o fewn y clwstwr.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig ar gael i gleifion yn y practis. Roedd y wybodaeth yn cael ei harddangos yn ardal aros y cleifion ac ar y sgrin arddangos ac yn cael ei hyrwyddo drwy wefan y practis. Gwelsom wybodaeth hybu iechyd am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys brechiadau, rhaglenni sgrinio, grwpiau cymorth a gwybodaeth i ofalwyr.

Roedd monitor pwysedd gwaed a chlorian yn yr ardal aros y gall y cleifion eu defnyddio heb drefnu apwyntiad. Mae'r monitor pwysedd gwaed yn argraffu canlyniadau a gellir mynd â'r rhain i'r dderbynfa i'w hychwanegu at gofnodion y cleifion. Roedd sgrin preifatrwydd o gwmpas yr ardal ac roedd cyfarwyddiadau a weips gwrthfacterol ar gael.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu â nifer o asiantaethau er mwyn gwella mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol amrywiol drwy eu grŵp clwstwr a Dinas Powys Voluntary Concern. Yn ogystal â mynediad at wasanaethau ffisiotherapi, iechyd meddwl a fferyllwyr, gwelsom fod y grŵp gwirfoddol yn cynnig gwasanaeth ardderchog i gleifion yn yr ardal drwy ddarparu cludiant i gleifion nad oes ganddynt eu cludiant eu hunain. Clywsom fod y grŵp wedi chwarae rôl bwysig yn ystod y rhaglen brechu rhag y fflw yn ddiweddar, drwy annog a helpu cleifion i fynd i'r feddygfa i gael eu brechiadau. Mae hyn yn galluogi'r cleifion i gael help a chymorth gan asiantaethau eraill mewn modd amserol.

Roedd proses a gwaith paratoi'r practis i reoli rhaglen frechu flynyddol y gaeaf yn addas ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer cleifion agored i niwed a phreswylwyr cartrefi gofal a'r rhai heb ddyfeisiau digidol. Roedd cymorth grŵp Dinas Powys Voluntary Concern wedi sicrhau bod cleifion heb gludiant wedi gallu mynd i apwyntiadau.

Mae staff y practis yn gweithio'n agos gyda'u grŵp cleifion i sicrhau eu bod yn cael y gofal cywir gan y gwasanaethau cywir. Er mwyn sicrhau bod cleifion sy'n agored i niwed yn cael gofal amserol, mae gan y practis ddarpariaeth gofal yn y cartref; sy'n sicrhau bod cleifion â chlefydau cronig ac sy'n gaeth i'w cartrefi yn cael archwiliadau

iechyd priodol a brechiadau sy'n benodol i'w hanghenion. Gwelsom fod y gwasanaeth gofal yn y cartref yn mynd gam ymhellach er budd y grŵp hwn o gleifion.

Roedd gweithdrefn 'cleifion na chânt eu cludo' wedi'i chynnwys yn y polisi 'heb fynychu'. Cadarnhaodd y staff fod pawb sy'n colli dau apwyntiad yn cael llythyr, gan gynnwys unrhyw blant sy'n colli apwyntiadau yn y practis neu yn yr ysbyty lleol. Roedd y polisi a'r system a oedd ar waith i reoli'r cleifion hyn yn briodol.

Dywedodd y rhai a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn y practis, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod wedi cael cynnig cyngor ar ffordd o fyw iach. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno bod eu meddyg teulu yn esbonio pethau'n dda iddynt ac yn ateb eu cwestiynau. Dywedodd y cleifion i gyd eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynoriadau. Roedd llenni preifatrwydd hefyd ar gael. Roedd gan y practis fynedfa arbennig i ambiwlansys. Mewn argyfwng, gall clinigwyr gludo cleifion drwy'r fynedfa hon yn hytrach na gorfod mynd drwy'r ardal aros.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr holiadur i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, roedd galwadau ffôn yn cael eu hateb yn y swyddfa weinyddol, a oedd wedi'i lleoli i ffwrdd o ddesg y dderbynfa. Mae desg y dderbynfa wrth ymyl y fynedfa a cheir seddi i gleifion gyferbyn, felly roedd rhywfaint o breifatrwydd i ffwrdd o'r ardal aros.

Roedd y claf a ymatebodd i'r holiadur ynghylch ei allu i siarad â staff y dderbynfa heb i neb arall eu clywed yn anghytuno.

Gwelsom hysbysiadau'n cael eu harddangos yn cynnig gwasanaeth hebryngwr. Roedd y feddygfa'n cynnig hebryngwyr gwrywaidd a benywaidd, a gallai'r cleifion ofyn am un ar unrhyw adeg. Roedd polisi hebryngwyr ar waith. Gwelsom nad oedd hebryngwyr yn gwneud nodiadau yng nghofnodion y cleifion yn unol â'r polisi, felly gwnaethom argymhell y dylai'r practis adolygu'r polisi a'r broses i sicrhau eu bod yn gyson.

Rhaid i'r practis adolygu'r polisi hebryngwyr i sicrhau bod y tasgau y mae'n ofynnol i'r hebryngwr eu cyflawni yn cael eu cofnodi.

Amserol

Gofal amserol

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn gallu cael gafael ar y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir ac mewn modd amserol. Roedd yr apwyntiadau'n cael eu gwneud dros y ffôn gan mwyaf, ond roedd modd trefnu apwyntiadau drwy system ar-lein ac wyneb yn wyneb hefyd. Dywedodd y rhai a ymatebodd i'r arolwg wrthym eu bod wedi gwneud apwyntiad wyneb yn wyneb yn y practis a thros y ffôn.

Clywsom y bydd staff y dderbynfa yn esbonio i'r cleifion pa fath o apwyntiadau sydd ar gael iddynt. Caiff y penderfyniad ynghylch a ddylid cael apwyntiad ffôn neu wyneb yn wyneb ei wneud drwy drafodaeth rhwng y practis a'r claf, a bydd dymuniadau'r claf yn cael blaenoriaeth. Darperir ar gyfer plant y mae angen apwyntiad wyneb yn wyneb arnynt.

Gwelsom fod angen diweddarau'r wybodaeth am drefnu apwyntiadau, yn enwedig ar y wefan. Nid oedd polisi mynediad i'r practis ar waith a gwnaethom argymhell y dylai polisi o'r fath gael ei gyflwyno, sy'n rhoi manylion yr apwyntiadau a sut y gellir eu trefnu. Rhaid cynnwys pob math o apwyntiad a gynigir yn y practis.

Rhaid i'r practis ddiweddarau'r wybodaeth ar ei wefan ynghylch trefnu apwyntiadau a chyflwyno polisi mynediad, sy'n nodi sut y gellir trefnu apwyntiadau a'r mathau o apwyntiadau sydd ar gael.

Gwnaethom nodi bod y swyddogion llywio gofal wedi rhoi llwybr da ar waith, gan neilltuo cleifion i'r person neu'r gwasanaeth mwyaf priodol. Roedd y llwybr ar gael i'r staff i gyd, ac roedd y swyddogion llywio gofal yn gallu cysylltu â'r meddyg ar alwad a oedd ar gael i roi arweiniad yn ôl yr angen. Mae'r staff yn cyfeirio pobl at wasanaethau priodol gan ddefnyddio eu llwybr ac yn gwneud defnydd da o wasanaethau cymorth yn y clwstwr. Nid oedd polisi ar waith i gefnogi'r broses llwybr a gwnaethom argymhell y dylai polisi o'r fath gael ei weithredu.

Rhaid i'r practis weithredu polisi ar y broses llwybr i gefnogi'r broses llywio gofal sydd ar waith.

Roedd prosesau addas ar waith i gefnogi cleifion a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl. Lle y bo'n briodol, caiff cleifion eu hatgyfeirio at y tîm iechyd meddwl cymunedol. Roedd cymorth a phrosesau cyfeirio amgen hefyd ar gael i gleifion yr oedd angen cymorth iechyd meddwl arnynt, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela a therapi gan wasanaethau yn y trydydd sector a staff iechyd meddwl drwy'r grŵp clwstwr.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno:

- eu bod yn fodlon ar oriau agor y practis
- eu bod yn gallu cysylltu â'r practis pan fo angen, dros y ffôn/system trefnu apwyntiadau ar-lein
- eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan fydd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod y staff yn cyfathrebu'n glir ac mewn iaith sy'n briodol i anghenion y cleifion. Roeddent yn darparu gwybodaeth mewn ffordd a oedd yn galluogi'r cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal. Roedd gan y feddygfa ddolen sain i gefnogi'r rhai sy'n drwm eu clyw hefyd.

Roedd un meddyg Cymraeg yn gweithio yn y practis ac roedd arwydd yn cael ei arddangos yn yr ardal aros i hysbysu cleifion am y gwasanaeth hwn. Clywsom mai dim ond nifer bach iawn o gleifion a oedd yn gofyn am wasanaethau yn Gymraeg, ond roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael i'r practis i gefnogi unrhyw gleifion y mae angen gwasanaethau arnynt mewn iaith arall.

Fel arfer, caiff cleifion wybod am y gwasanaethau a gynigir yn y practis drwy'r wefan, y cyfryngau cymdeithasol a thrwy wybodaeth a diweddariadau a gaiff eu rhannu drwy wasanaeth negeseuon testun. Os yw'n hysbys nad oes gan gleifion fynediad digidol, byddai llythyrau yn cael eu hanfon at unigolion a byddai'r practis yn cyfathrebu â nhw drwy alwadau ffôn. Mae gan y practis gydberthynas dda â grŵp Dinas Powys Voluntary Concern a gall gyhoeddi erthyglau yn ei gylchlythyr. Mae hyn yn golygu y gall pobl heb ddyfeisiau digidol gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y practis.

Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer cofnodi gwybodaeth gan wasanaeth gofal eilaidd a gweithredu yn ei chylch. Caiff llythyrau a dogfennau eu sganio ar nodiadau cleifion a'u hanfon at yr ymarferydd gofal iechyd cywir er mwyn gweithredu yn eu cylch yn ôl yr angen. O'r nodiadau y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod y staff gofal iechyd wedi rhoi gwybodaeth i gleifion mewn ffordd a oedd yn diwallu eu hanghenion unigol.

Roedd y practis yn sicrhau bod negeseuon yn cael eu trosglwyddo'n fewnol i'r bobl briodol gan ddefnyddio systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r practis. Dywedodd y staff wrthym mai negeseuon e-bost oedd yr opsiwn gorau am fod y dderbynneg darllen yn sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei darllen a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd yn ei chylch, lle bo angen.

Gwelsom nad oedd gan y practis bolisi llif gwaith a gwnaethom argymhell y dylai polisi o'r fath gael ei roi ar waith. Ar adeg yr ymweliad, roedd y staff yn trefnu llythyrau ac yn penderfynu pa rai i'w hanfon at y meddygon i'w hadolygu. Byddai polisi yn ei gwneud yn gliriach pa wybodaeth y dylid ei hanfon at glinigwyr a pha wybodaeth y gellir ei ffeilio.

Gwelsom fod y broses a'r trefniadau rheoli ar gyfer gweithredu ar ganlyniadau yn ardderchog ac yn cynnwys y tîm cyfan. Mae'r system yn nodi'r cleifion y mae angen iddynt gael apwyntiadau dilynol ac os bydd claf yn colli tri o'r rhain, caiff yr achos ei drosglwyddo'n ôl i'r clinigydd. Nodwyd bod hyn yn arfer da ac yn ffordd effeithiol o weithredu ar broses nad yw'n syml.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd y practis yn cynnig mynediad da i gleifion. Roedd yr holl gyfleusterau i gleifion, gan gynnwys yr ystafelloedd trin, cyfleusterau newid cewynnau a thoiled hygyrch, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Roedd digon o seddi yn yr ardal aros, gan gynnwys cadeiriau bariatrig a chadeiriau uchel i helpu unrhyw un â phroblemau symudedd. Roedd desg isel yn y dderbynfa ar gyfer cleifion mewn cadeiriau olwyn.

Roedd y cleifion a ymatebodd i'n holiadur yn teimlo bod yr adeilad yn hygyrch a bod digon o seddi yn yr ardal aros.

Roedd gan y practis hyrwyddwr gofalwyr ac roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos yn glir yn yr ardal aros. Mae'r fenter hon yn arfer da er mwyn helpu gofalwyr i ddod o hyd i gymorth a gwybodaeth.

Gwelsom dystiolaeth fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Nododd yr ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiwn nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn nac wrth ei ddefnyddio.

Roedd hawliau cleifion trawsryweddol hefyd yn cael eu parchu, a chadarnhaodd y staff fod rhagenwau ac enwau a ffefrir yn cael eu defnyddio o ddechrau'r cyfnod trawsnewid.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys o fewn ystafelloedd clinigol. Roedd y practis yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da.

Roedd cynllun parhad busnes ar waith ac roedd ar gael yn hawdd i'r staff i gyd. Gwelsom nad oedd y cynllun yn cynnwys gwybodaeth am risgiau i'r bartneriaeth fusnes ac er ein bod yn cydnabod bod y risg yn fach ar adeg ein hymweliad, rydym yn argymhell y dylid cynnwys gwybodaeth o'r fath. Roedd y polisi'n nodi'n ddigonol sut y byddai'r practis yn ymdrin ag argyfwng iechyd mawr ac yn cyfeirio at bolisiau eraill.

Rhaid i'r practis ddiweddarau ei gynllun parhad busnes i gynnwys risgiau i'r bartneriaeth fusnes.

Dangosodd y practis drefniadau cydweithio da fel clwstwr i sicrhau y gallai gofal cleifion barhau pe bai sefyllfa eithafol yn codi.

Gwelsom fod rhybuddion diogelwch cleifion yn cael eu hanfon at y practis yn rheolaidd ac yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd. Roedd y broses a oedd ar waith ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys yn gadarn. Gwnaethom argymhell y dylid rhoi polisi digwyddiadau o bwys ar waith i gefnogi'r protocolau a'r broses ar gyfer digwyddiadau o bwys.

Rhaid i'r practis roi polisi digwyddiadau o bwys ar waith i gefnogi'r protocolau a'r broses a ddefnyddir yn y practis.

Roedd trefn briodol ar waith pe byddai angen help ar frys yn y practis. Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio'n briodol, ac roedd y staff yn gallu dod o hyd iddynt mewn argyfwng.

Pe bai claf yn gorfod aros yn hir am ambiwlans, clywsom y byddai'r meddygon yn asesu addasrwydd cludiant arall yn erbyn pa mor frys oedd yr achos.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn briodol ar y cyfan. Roedd y gweithdrefnau yn sicrhau bod y practis yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith ac ar gael i'r staff i gyd. Roedd y practis wedi penodi nyrs benodol yn arweinydd atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cynnal safonau atal a rheoli heintiau ac roedd y staff nyrsio wedi cael yr hyfforddiant priodol. Roedd y cofnodion yn cadarnhau bod gan yr holl staff clinigol perthnasol imiwnedd i Hepatitis B, ac roedd y staff yn cael cynnig brechlynnau ffliw.

Roedd polisi ar anafiadau a achosir gan nodwyddau ar waith ac ar gael i'r staff. Cafodd y broses y dylai'r staff ei dilyn pe byddent yn cael anaf a achosir gan nodwydd ei disgrifio i ni ac roedd yn cyd-fynd â'r polisi. Nid oedd unrhyw bosteri cyngor ar anafiadau a achosir gan nodwyddau yn cael eu harddangos ar y waliau, a gwnaethom argymhell y dylai posterï o'r fath gael eu harddangos ym mhob ystafell glinigol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod poster cyngor ar anafiadau a achosir gan nodwyddau yn cael ei weithredu a'i arddangos ym mhob ystafell glinigol.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer rheoli a gwaredu pob math o wastraff, ac roedd polisi ar waith i ategu hyn. Gwelsom fod biniau offer miniog wedi'u cloi a'u llofnodi, a bod bagiau gwastraff wedi'u cau a'u labelu. Roedd gwastraff yn cael ei storio'n briodol mewn cwpwrdd dan glo. Ar ddiwrnod ein hymweliad, dim ond un bin hylendid oedd yn y practis. Roedd newid i'r contract yn golygu nad oedd biniau wedi cael eu dosbarthu i'r practis eto. Codwyd y mater hwn ar y pryd a chafwyd cadarnhad y diwrnod canlynol fod biniau hylendid wedi cael eu dosbarthu a'u gosod mewn mannau addas ym mhob rhan o'r practis.

Roedd trefniadau addas ar waith i wahanu pobl â heintiau trosglwyddadwy er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd y cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno bod arwyddion ger y fynedfa yn esbonio beth i'w wneud pe bai ganddynt afiechyd heintus.

Roedd y polisi atal a rheoli heintiau yn nodi y byddai archwiliad o drefniadau atal a rheoli heintiau yn cael ei gwblhau bob 12 mis ac roedd y dogfennau archwilio yn cadarnhau hyn.

Roedd gan y practis gontract glanhau ac roedd amserlenni glanhau i'w gweld. Roedd y cwpwrdd a ddefnyddiwyd i storio deunyddiau a chyfarpar glanhau yn lân ac yn drefnus. Roedd arwyddion COSHH yn cael eu harddangos ac roedd ffeil ddiogelwch mewn perthynas â'r cemegion yn y cwpwrdd glanhau ar gael.

Roedd y cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod hylif diheintio dwylo ar gael, a dywedodd y rhai a atebodd y cwestiwn fod y practis yn lân iawn yn eu barn nhw.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi mewn ffordd ddiogel. Gwelsom fod presgripsiynau yn cael eu cadw'n ddiogel a bod unrhyw bediau presgripsiwn heb eu defnyddio yn cael eu dinistrio gan y practis neu'u dychwelyd at y bwrdd iechyd i'w gwaredu'n briodol a'u hatal rhag cael eu defnyddio heb awdurdod.

Dywedwyd wrthym fod llwybr archwilio ar waith ar gyfer cyffuriau a reolir pan gaiff y rhain eu casglu. Nid oedd llwybr archwilio ar gael ar gyfer y sgriptiau eraill am fod y broses yn llafurus.

Roedd y broses i gleifion ofyn am feddyginiaeth reolaidd yn glir. Dywedodd y staff wrthym y gallai cleifion archebu presgripsiynau ar-lein, drwy e-bost ac yn y fferyllfa. Roedd presgripsiynau yn cael eu prosesu mewn modd amserol gan dechnegydd y fferyllfa ac yn cael eu hawdurdodi gan feddyg. Gwelsom fod polisi rhagnodi ar waith ac ar gael i'r staff.

Roedd polisi cadwyn oer ar waith ar gyfer meddyginiaethau a brechlynnau y mae angen eu cadw mewn oergell, ac roedd oergelloedd clinigol yn cael eu defnyddio i'w storio'n briodol. Roedd gwiriadau dyddiol o dymheredd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi. Roedd cylchrediad aer da yn yr oergelloedd y gwnaethom eu harchwilio am fod y meddyginiaethau'n cael eu storio'n briodol, yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr.

Roedd y staff yn wybodus am y weithdrefn a ddilynwyd ganddynt pan dorrwyd y gadwyn oer yn ddiweddar a chafodd yr achos ei uwchgyfeirio'n briodol. Yn sgil y gwersi a ddysgwyd o'r achos hwn, caiff yr oergelloedd eu gwirio deirgwaith y dydd a chaiff tymheredd yr ystafell ei wirio a'i gofnodi bob dydd.

Roedd dyddiadau'r cyffuriau y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad i gyd yn gyfredol. Roedd person enwebedig yn y practis a oedd yn gyfrifol am archwilio'r cyffuriau bob wythnos, ac roedd y staff nyrsio yn gwybod pwy oedd yr unigolyn hwn ac yn cymryd cyfrifoldeb am archwilio hefyd. Roedd cofnodion yn cael eu cadw a oedd yn dangos y cyffuriau a'u dyddiadau defnyddio.

Roedd yr holl gyffuriau a chyfarpar brys yn cyrraedd y safonau a nodir yng nghanllawiau Cyngor Adfywio'r DU. Mae unigolyn a enwir yn gyfrifol am wirio'r rhain bob wythnos a chaiff y gwiriadau hyn eu cofnodi. Roedd y cofnodion a gedwir

mewn perthynas â chyffuriau a chyfarpar brys hefyd yn cynnwys dyddiadau dod i ben.

Roedd diffibriliwr allanol awtomataidd ar gael ac wedi'i wefru'n llawn. Roedd pecyn batri sbâr ar gael hefyd. Gwelsom fod y diffibriliwr yn cynnwys padiau ar gyfer oedolion a phlant. Roedd y staff i gyd yn gwybod ble roedd y diffibriliwr ond nid oedd arwydd yn yr ystafell i ddangos ei leoliad. Efallai yr hoffai'r practis ystyried gosod arwydd i ddangos ei leoliad.

Gwelsom fod silindrau ocsigen o fewn eu dyddiad defnyddio a bod y lefelau stoc yn briodol a threfniadau ar waith i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau. Clywsom fod y staff clinigol i gyd yn gwybod sut i droi'r silindr ocsigen ymlaen a chaiff hyfforddiant ei ddarparu fel rhan o'r hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd.

Ni chaiff unrhyw gyffuriau a reolir eu cadw yn y practis.

Diogelu plant ac oedolion

Gwnaethom ystyried y gweithdrefnau diogelu sydd ar waith yn y practis a gwelsom fod y polisi yn cynnwys oedolion a phlant. Roedd y polisi yn cyfeirio at weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff ar y gyriant a rennir. Roedd gan y practis arweinwyr diogelu wedi'u henwi a oedd wedi'u cofnodi yn y polisi.

Nid oedd yr arweinydd diogelu a enwir yn y polisi yn gwybod mai ef/hi oedd y prif unigolyn diogelu. Roedd y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn yn achos digwyddiad diogelu a gwnaethant ddweud mai'r meddyg oedd eu harweinydd diogelu.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob un o'r arweinwyr diogelu a enwir yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Os gwneir unrhyw newidiadau, rhaid hysbysu'r staff i gyd a diweddarau'r dogfennau.

Roedd prosesau ar waith i fonitro ymweliadau cleifion, gan gynnwys plant ac oedolion agored i niwed neu grwpiau sy'n wynebu risg, ag adrannau gwasanaethau brys yn ychwanegol at y polisi 'heb fynychu/heb gael eu cludo'. Caiff llythyrau ar gyfer y rhai nad ydynt yn mynd i apwyntiadau eu hanfon at y meddygon i'w hadolygu.

Roedd disgwyl i'r cyfarfod diogelu amlasiantaethol ailddechrau ddiwedd mis Ionawr. Bydd ymwelwyr ieuchyd yn y practis yn cysylltu â'r meddygon yn ôl yr angen. Cynhelir cyfarfodydd gofal lliniarol yn rheolaidd gyda staff amlasiantaethol. Mae'r mesurau hyn yn helpu i sicrhau y gall pobl a staff roi gwybod am bryderon

diogelu, ac y gellir cymryd y camau angenrheidiol i amddiffyn lles cleifion sy'n agored i niwed.

Gwelsom nad oedd y lefel o hyfforddiant diogelu sy'n berthnasol i rolau'r staff, ac fel y rhestrir yn y polisi, yn cyfateb i gofnodion y staff.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu (plant ac oedolion) sy'n briodol i'w rôl, a dylid cadw cofnod er mwyn dangos hyn.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol mewn cyflwr da, yn ddiogel i'w defnyddio ac wedi'u gwirio'n briodol. Roedd contractau addas ar waith ar gyfer trwsio cyfarpar perthnasol neu gael cyfarpar newydd. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol ac yn cael eu gwaredu'n gywir.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd prosesau addas ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Dywedwyd wrthym fod unrhyw newidiadau neu ganllawiau newydd yn cael eu hanfon at y staff drwy e-bost a'u trafod â nhw a bod y wybodaeth yn cael ei storio ar y gyriant a rennir lle y gall pob aelod o'r staff ei gweld.

Roedd prosesau priodol ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau, gan gynnwys cwblhau ffurflenni, trafodaethau mewn cyfarfodydd mewnol ac adolygu'r rhain ar ôl cyfnod o amser. Mae'r system hon yn helpu i wella prosesau ac yn gwneud gweithdrefnau'n fwy diogel. Gwnaethom argymhell y dylai polisi digwyddiadau o bwys gael ei roi ar waith i gefnogi'r prosesau a ddilynir gan y staff.

Roedd y broses o atgyfeirio cleifion yn cael ei rheoli i safon dda, gan gynnwys atgyfeiriadau brys. Roedd cofnodion y cleifion yn cynnwys canlyniadau ymchwiliadau/profion ac roedd naratif ynddynt o ran pam gofynnwyd am yr ymchwiliadau.

Roedd cleifion yr oedd angen cymorth meddygol brys arnynt neu'r rhai hynny a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl yn cael cefnogaeth a gwybodaeth addas. Mae nyrs iechyd meddwl hefyd ar gael i'r practis. Mae'r meddygon yn rhoi cymorth i bobl sydd wedi cysylltu â'r practis mewn argyfwng. Mae'r tîm argyfwng iechyd meddwl lleol yn anfon gohebiaeth i'r practis os bydd claf wedi cael ymyriad blaenorol ar gyfer ei anghenion iechyd meddwl.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion electronig deg claf, a oedd yn cael eu storio'n ddiogel ac wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod drwy gyfrinair. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roeddent wedi'u hysgrifennu ar y pryd ac roedd y wybodaeth yn hawdd i glinigwyr eraill a oedd yn edrych ar y cofnodion ei deall. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cynlluniau rheoli yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt.

Rhaid i'r practis sicrhau bod cynlluniau rheoli yn cael eu cynnwys yng nghofnodion y cleifion pan fo hynny'n briodol.

Gwelsom nad oedd codau Read clinigol yn cael eu defnyddio'n gyson sy'n golygu ei bod yn anodd dadansoddi ac archwilio cofnodion. Mae cynlluniau ar waith i'r practis symud ei gofnodion i system newydd, a fydd yn helpu i liniaru'r broblem hon.

Roedd cofnodion y cleifion lle roedd clefydau cronig yn cael eu cofnodi yn cynnwys crynodeb llawn o'r cyflwr (cyflyrau), gan gynnwys holl broblemau'r gorffennol a phroblemau parhaus, yn ogystal â'r feddyginiaeth oedd yn cael ei chymryd.

O'r nodiadau a welsom, nodwyd nad oedd dewis iaith y cleifion wedi'i chofnodi bob amser.

Rhaid i'r practis sicrhau bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi ac yn hawdd ei weld yn eu cofnodion clinigol.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod gwasanaethau'n cael eu trefnu mewn modd effeithlon a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd.

Gall y practis atgyfeirio at wasanaethau ffisiotherapi ac iechyd meddwl a gall y rhan fwyaf o'r cleifion atgyfeirio eu hunain at wasanaethau penodol.

Ceir cydberthnasau gwaith agos â nyrsys ardal a chlinigau penodol ar gyfer cleifion ag asthma a diabetes.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Buom yn sgwrsio â'r staff drwy gydol yr arolygiad ac roedd y sylwadau a gafwyd gan y staff mewn ymateb i'n harolwg yn cynnwys:

“Lle da i weithio, prysur iawn ond rydym yn cael gofal a chymorth i wneud ein gwaith. Mae wedi bod yn anodd iawn ers Covid - mor brysur ac mae gofynion y cleifion wedi cynyddu ac mae disgwyliadau yn afresymol weithiau”.

“Lle hyfryd i weithio”.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu mewn ffordd gynaliadwy. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Roedd proses glir ar waith yn y practis ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r staff, fel newidiadau i bolisiau neu weithdrefnau. Roedd pob polisi a gweithdrefn ar y gyriant a rennir a byddai pob aelod o'r staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau drwy e-bost, WhatsApp a thrwy gyfarfodydd tîm.

Roedd y dull rheoli dogfennau ar y polisiau a welsom yn cynnwys dyddiad adolygu a chymeradwywr. Ar y cyfan, roedd y polisiau a welsom yn fanwl ac yn benodol i'r practis. Caiff polisiau eu cadw ar yriant a rennir sy'n golygu y gall pob aelod o'r staff eu gweld. Roedd copïau papur ar gael yn y dderbynfa.

Gwelsom fod mesurau priodol ar waith i rannu unrhyw hysbysiadau diogelwch â'r staff.

Clywsom fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal ond nid oedd tystiolaeth o gofnodion ar gyfer cyfarfodydd clinigol. Dylid cadw cofnodion o gyfarfodydd er mwyn rhannu gwybodaeth â'r rhai na allant fod yn bresennol. Bydd unrhyw wersi'n cael eu dysgu a'u rhannu gyda'r staff i sicrhau bod y practis yn cadw safonau a gwelliannau gwasanaeth da, lle y bo'n gymwys.

Rhaid i'r practis gadw cofnodion o gyfarfodydd a sicrhau eu bod yn cael eu rhannu â'r unigolion priodol os na allant fod yn bresennol.

Roedd y practis yn gweithio'n agos gyda grŵp clwstwr y Bwrdd Iechyd ac yn cydweithio i arwain prosiectau, rhannu gwersi a ddysgwyd a chyd-reoli mentrau.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom siarad â staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau. Roedd gan bob un ohonynt wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd yn ymddangos bod pob un ohonynt yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion. Clywsom fod y practis yn annog datblygiad proffesiynol, ac roedd rhai aelodau o'r staff yn ymwneud â hyfforddiant i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn arbenigeddau clinigol penodol.

Dywedodd y staff wrthym am y broses sydd ar waith i recriwtio a chynnal gwiriadau cyn cyflogi, a oedd yn cynnwys geirdaon ysgrifenedig, tystiolaeth o gofrestriadau â chyrff proffesiynol a gwiriadau datgelu a gwahardd a ategir gan bolisi recriwtio. Roedd proses sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff.

Er mwyn gwirio cofrestriad proffesiynol ym maes gofal iechyd, roedd staff nyrsio yn cyflwyno copi o'u tystysgrif i'w gadw yn eu ffeil staff. Gellir gwirio cofrestriadau meddygon ar gofrestr y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Mae'r practis yn gofyn i'r staff ddarparu hunan-ddatganiad i gadarnhau eu bod yn addas o hyd i weithio i'r gwasanaeth ac nad oes unrhyw newidiadau wedi digwydd ers eu gwiriad datgelu a gwahardd diwethaf. Gwelsom fod arfarniadau ffurfiol wedi cael eu cynnal ar gyfer y staff nyrsio a'r staff gweinyddol. Nid oedd cofnodion ar gael ar gyfer y meddygon am eu bod yn cael eu goruchwyllo a'u harfarnu'n allanol.

Gwelsom fod cymysgedd sgiliau priodol rhwng y timau i ddarparu'r gwasanaethau gofynnol ac roedd gan y practis broses ar waith i sicrhau bod niferoedd staff a lefelau staff clinigol yn cael eu cynnal.

Nid oedd cynllun gweithlu ffurfiol ar gael ond roedd gan y practis feini prawf ar gyfer absenoldebau sy'n helpu i nodi ble mae angen staff ychwanegol. Clywsom fod gan y staff sgiliau sy'n eu galluogi i gyflawni rolau eraill. Mae'r practis yn adolygu lefelau staffio yn barhaus i sicrhau eu bod yn briodol.

Wrth edrych ar hyfforddiant y staff, nodwyd y dylai matrices hyfforddiant gael ei ddatblygu a'i gadw er mwyn cael darlun cyffredinol o gydymffurfiaeth â hyfforddiant. Gwelsom fod yn rhaid chwilio drwy gofnodion y staff i ganfod eu

cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Clywsom fod y meddygon teulu yn cadw eu tystysgrifau eu hunain o ganlyniad i arfarniadau ac ymarferion ailddilysu ac, felly, ychydig o dystiolaeth a oedd ar gael yn eu ffeiliau. Bydd matrices hyfforddiant yn galluogi'r practis i sicrhau y gellir monitro cydymffurfiaeth yn effeithiol a sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn gyfredol yn unol â'u rôl.

Rhaid i'r practis ddatblygu matrices hyfforddiant ar gyfer y staff i gyd a sicrhau y caiff ei fonitro'n rheolaidd i gadarnhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn parhau i fod yn gyfredol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

O'r cleifion a ymatebodd i'n harolwg, cadarnhaodd pob un ohonynt nad oedd y practis wedi gofyn iddynt am eu profiad o'r gwasanaeth a ddarparwyd. Nid oedd yr un ohonynt yn gwybod sut i gwyno am y gwasanaeth ond roeddent i gyd yn cytuno eu bod wedi cael gwasanaeth 'da iawn' neu 'da'.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth fod awgrymiadau gan gleifion yn cael eu croesawu a bod y practis yn gweithredu arnynt. Roedd blwch adborth ar gael wrth y fynedfa ac roedd poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni' wedi'i arddangos ar hysbysfwrdd. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer da am fod y wybodaeth ar y poster yn dangos sut roedd y practis yn casglu adborth gan y cleifion a sut y byddai'n defnyddio'r adborth i wella'r gwasanaeth.

Roedd gan y practis weithdrefn gwyno a pholisi cwyno i gleifion a oedd yn gyson â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli unrhyw gwynion a chlinigydd oedd yn gyfrifol am bryderon clinigol. Caiff hyn ei nodi'n glir yn y polisi cwynion. Caiff cwynion/pryderon eu monitro er mwyn nodi unrhyw themâu a thueddiadau, a chaiff unrhyw gamau gweithredu er mwyn gwella eu rhannu â'r staff.

Teimlai'r staff y gallent siarad â rheolwr y practis am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt a'u bod yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt â rheolwr y practis i'w hystyried.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth cyfredol ar waith i gefnogi hyn.

Roedd gan y practis hysbysiad preifatrwydd a oedd ar gael ar y wefan. Gwnaethom argymhell y dylai'r hysbysiad gael ei ddiweddarau i gynnwys mwy o fanylion am sut y caiff data eu trin.

Rhaid i'r practis ddiweddarau'r hysbysiad preifatrwydd i gynnwys mwy o fanylion am y ffordd y caiff data cleifion eu trin.

Caiff archwiliadau eu cwblhau i sicrhau bod data yn y practis o ansawdd uchel er mwyn darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol i gleifion. Mae trefniadau ar waith hefyd i sicrhau bod data a hysbysiadau yn cael eu cyflwyno i gyrff allanol yn ôl y gofyn.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd tystiolaeth o rywfaint o archwilio clinigol a mewnol er mwyn monitro ansawdd. Dywedwyd wrthym fod yr holl wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â phob rhan o'r practis er mwyn gwneud gwelliannau.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Darparodd y practis enghreifftiau o'r effaith y mae'n ei chael, fel rhanddeiliad yng ngofal cleifion, ar rannau eraill o'r system gofal iechyd. Roedd hyn yn cynnwys dilyn llwybrau clinigol y bwrdd iechyd. Mae'r practis hefyd yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â phartneriaid y system mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol amrywiol, fel cyfarfodydd clwstwr a grwpiau gwirfoddol.

Roedd cydberthnasau cydweithredol da ar waith â phartneriaid allanol ac o fewn y clwstwr. Roedd y practis yn gweithio gyda'r clwstwr lleol o feddygfeydd er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o heriau ac anghenion y boblogaeth leol a helpu i integreiddio gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer yr ardal ehangach.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Dinas Powys

Dyddiad yr arolygiad: 08 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd eu hangen ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.					
2.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Dinas Powys

Dyddiad yr arolygiad: 08 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Gwelsom nad oedd hebryngwyr yn gwneud nodiadau yng nghofnodion y cleifion yn unol â'r polisi, felly argymhellwyd y dylai'r practis adolygu'r polisi a'r broses i sicrhau eu bod yn gyson.	Rhaid i'r practis adolygu'r polisi hebryngwyr i sicrhau bod y tasgau y mae'n ofynnol i'r hebryngwr eu cyflawni yn cael eu cofnodi.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Mae'r polisi wedi cael ei adolygu ac anfonwyd e-bost at y staff i'w hatgoffa i gadw cofnod o unrhyw ddefnydd a wneir o hebryngwyr gan ddefnyddio codau Read neu achosion pan gaiff hebryngwr ei wrthod.	C Bates - Rheolwr y Practis	Anfonwyd neges e-bost ar 19/02/2025.
2.	Gwelsom fod angen diweddarw'r wybodaeth am drefnu apwyntiadau, yn	Rhaid i'r practis ddiweddarw'r wybodaeth ar ei wefan ynghylch trefnu apwyntiadau a	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Diweddarwyd y wefan i nodi sut mae trefnu apwyntiadau/mathau o apwyntiadau. Mae'r	C Bates - Rheolwr y Practis	Mae'r wefan wedi'i diweddarw ac mae polisi

	enwedig ar y wefan. Nid oedd polisi mynediad i'r practis ar waith a gwnaethom argymhell y dylai polisi o'r fath gael ei gyflwyno, sy'n rhoi manylion yr apwyntiadau a sut y gellir eu trefnu. Rhaid cynnwys pob math o apwyntiad a gynigir yn y practis.	chyflwyno polisi mynediad, sy'n nodi sut y gellir trefnu apwyntiadau a'r mathau o apwyntiadau sydd ar gael.		polisi newydd - Polisi Brysbennu a Llywio Gofal - yn amlinellu sut i drefn apwyntiad a'r mathau o apwyntiadau a gynigir.		newydd wedi cael ei baratoi a'i lanlwytho fel tystiolaeth.
3.	Nid oedd polisi ar waith i gefnogi'r broses llwybr.	Rhaid i'r practis gael polisi ar y broses llwybr i gefnogi'r broses llywio gofal sydd ar waith.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Caiff hyn ei gwmpasu gan y polisi atodedig - Polisi Brysbennu a Llywio Gofal.	C Bates - Rheolwr y Practis	Gwnaethpwyd ar 22/2/25.
4.	Gwelsom nad oedd y cynllun yn cynnwys gwybodaeth am risgiau i'r bartneriaeth fusnes ac er ein bod yn cydnabod bod y risg yn fach ar adeg ein hymweliad, rydym	Rhaid i'r practis ddiweddarw ei gynllun parhad busnes i gynnwys risgiau i'r bartneriaeth fusnes.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Diweddarwyd y Cynllun Parhad Busnes i adlewyrchu'r risgiau i'r bartneriaeth fusnes ond nodwyd bod y risg yn isel.	C Bates - Rheolwr y Practis	Gwnaethpwyd ar 19/2/25

	yn argymhell y dylid cynnwys gwybodaeth o'r fath.					
5.	Gwnaethom argymhell y dylid rhoi polisi digwyddiadau o bwys ar waith i gefnogi'r protocolau a'r broses ar gyfer digwyddiadau o bwys.	Rhaid i'r practis roi polisi digwyddiadau o bwys ar waith i gefnogi'r protocolau a'r broses a ddefnyddir yn y practis.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Rhoddwyd polisi ar waith i gefnogi'r broses hon a chafodd ffurflenni newydd eu rhannu.	C Bates - Rheolwr y Practis	Gwnaethpwyd - Polisi wedi'i lanlwytho fel tystiolaeth.
6.	Nid oedd unrhyw bosteri cyngor ar anafiadau a achosir gan nodwyddau yn cael eu harddangos ar y waliau, a gwnaethom argymhell y dylai posteri o'r fath gael eu harddangos ym mhob ystafell glinigol.	Rhaid i'r practis sicrhau bod poster cyngor ar anafiadau a achosir gan nodwyddau yn cael ei weithredu a'i arddangos ym mhob ystafell glinigol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Mae posteri ar anafiadau a achosir gan nodwyddau wedi cael eu paratoi a'u harddangos ym mhob ystafell glinigol.	R Andrews - Nyrs Practis.	18/2/25
7.	Nid oedd yr arweinydd diogelu a enwir yn y polisi yn gwybod mai ef/hi oedd y prif unigolyn diogelu.	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob un o'r arweinwyr diogelu a enwir yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Os gwneir unrhyw newidiadau, rhaid	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel; Y Gweithlu	Cafodd yr Arweinwyr Diogelu eu hatgoffa o'u rolau a chaiff posteri sy'n nodi'r unigolion cyfrifol eu harddangos o amgylch y feddygfa.	C Bates - Rheolwr y Practis	Gwnaethpwyd ar 18/2/25

		hysbysu'r staff i gyd a diweddarau'r dogfennau.				
8.	Gwelsom nad oedd y lefelau diogelu sydd eu hangen ar staff, fel y'u rhestrir yn y polisi, yn cyfateb i'r dystiolaeth a welsom ar dystysgrifau.	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu (plant ac oedolion) sy'n briodol i'w rôl, a dylid cadw cofnod er mwyn dangos hyn.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel; Y Gweithlu	Mae'r hyfforddiant diogelu ychwanegol ar waith a chaiff ei gwblhau erbyn dechrau mis Mawrth. Caiff tystysgrifau eu hargraffu a chaiff y matrices hyfforddiant ei ddiweddarau.	C Bates - Rheolwr y Practis	Cwblhau erbyn dechrau mis Mawrth 2025.
9.	Gwelsom nad oedd cynlluniau rheoli yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt.	Rhaid i'r practis sicrhau bod cynlluniau rheoli yn cael eu cynnwys yng nghofnodion y cleifion pan fo hynny'n briodol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; yn canolbwyntio ar yr unigolyn	Cafodd clinigwyr eu hatgoffa o'r angen i sicrhau bod cynlluniau rheoli yn cael eu cynnwys mewn cofnodion pan fo hynny'n briodol.	C Bates - Rheolwr y Practis	Gwnaethpwyd hyn ar lafar a thrwy e-bost ar 25/2/25
10.	O'r nodiadau a welsom, nodwyd nad oedd dewis iaith y cleifion wedi'i chofnodi bob amser.	Rhaid i'r practis sicrhau bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi ac yn hawdd ei weld yn eu cofnodion clinigol	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Dylai'r staff sicrhau bod dewis iaith cleifion yn cael ei chofnodi pan fyddant yn cofrestru neu'n ôl-weithredol lle bo hynny'n bosibl.	C Bates - Rheolwr y Practis	Rhoddwyd gwybod am hyn ar lafar a chaiff ei drafod ymhellach yn ystod cyfarfodydd

						staff ym mis Mawrth.
11.	Clywsom fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal ond ni welsom dystiolaeth o gofnodion ar gyfer cyfarfodydd clinigol. Dylid cadw cofnodion o gyfarfodydd er mwyn rhannu gwybodaeth â'r rhai na allant fod yn bresennol.	Rhaid i'r practis gadw cofnodion o gyfarfodydd a sicrhau eu bod yn cael eu rhannu â'r unigolion priodol os na allant fod yn bresennol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Y Gweithlu	Mae angen cadw cofnodion o gyfarfodydd clinigol anffurfiol o hyn ymlaen, fel sy'n digwydd yn barod yn achos cyfarfodydd ar ddigwyddiadau o bwys, cyfarfodydd staff a chyfarfodydd partneriaid.	C Bates - Rheolwr y Practis	Mae'r tîm clinigol yn ymwybodol o'r gofyniad hwn ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio.
12.	Wrth edrych ar hyfforddiant y staff, nodwyd y dylai matrices hyfforddiant gael ei ddatblygu a'i gadw er mwyn cael darlun cyffredinol o gydymffurfiaeth â hyfforddiant. Gwelsom fod yn rhaid chwilio drwy gofnodion y staff i	Rhaid i'r practis ddatblygu matrices hyfforddiant ar gyfer y staff i gyd a sicrhau y caiff ei fonitro'n rheolaidd i gadarnhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn parhau i fod yn gyfredol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Y Gweithlu	Ehangu matrices hyfforddiant y staff gweinyddol i gynnwys Nyrsys a Meddygon, er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth	C Bates - Rheolwr y Practis	Erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

	ganfod eu cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Clywsom fod y meddygon teulu yn cadw eu tystysgrifau eu hunain o ganlyniad i arfarniadau ac ymarferion ailddilysu ac, felly, prin oedd y dystiolaeth a oedd ar gael yn eu ffeiliau. Bydd matrices hyfforddiant yn galluogi'r practis i sicrhau y gellir monitro cydymffurfiaeth yn effeithiol a sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn gyfredol yn unol â'u rôl.					
13.	Roedd gan y practis hysbysiad preifatrwydd a oedd ar gael ar y wefan.	Rhaid i'r practis ddiweddarau'r hysbysiad preifatrwydd i gynnwys mwy o fanylion am y	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae'r hysbysiad preifatrwydd wedi cael ei ddiweddarau ac mae'n cynnwys mwy o	C Bates - Rheolwr y Practis	Gwnaethpwyd ar 19/2/25

Gwnaethom argymhell y dylai'r hysbysiad gael ei ddiweddarau i gynnwys mwy o fanylion am sut y caiff data eu trin.	ddfordd y caiff data eu trin.		fanylion am y ffordd y caiff data eu trin.		
---	-------------------------------	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): **CAROL BATES**
Teitl swydd: **RHEOLWR Y PRACTIS**
Dyddiad: **25/02/2025**